Clare Pillman
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Clare

**Tollau trwyddedau rhwydo eogiaid a brithyllod mudol 2021, 2022 a 2023**

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi hysbysiad ynghylch ei fwriad i ddiwygio tollau trwyddedau rhwydo eogiaid a brithyllod mudol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2021 a 31 Rhagfyr 2023. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu adolygiad o opsiynau i gyd-fynd â'r hysbysiad, gan nodi chwe opsiwn posibl ar gyfer y tollau newydd.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y cyfnod ar gyfer mynegi gwrthwynebiad i'r tollau arfaethedig wedi dod i ben ar 2 Rhagfyr 2020. Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch er mwyn codi sawl mater a allai lywio eich ystyriaeth o'r cynigion hyn.

Rydym wedi cael gohebiaeth gan yr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, sy'n dweud bod gan y sefydliad bryderon mawr ynghylch y cynigion hyn, a fyddai'n cynyddu'n sylweddol y ffioedd a godir ar y sawl sy'n pysgota gan ddefnyddio rhwydau cwrwgl a rhwydau sân. Nodwn fod adroddiad CNC yn dweud y gallai'r opsiwn a ffefrir (Opsiwn 6) arwain at ostyngiadau mewn rhai pysgodfeydd traddodiadol (e.e. byddai pysgodfa cwrwgl y Teifi yn gweld cynnydd mewn tollau er mwyn sicrhau cysondeb â physgodfa debyg ar y Tywi).

Rydym yn pryderu y gallai'r cynigion hyn gael effaith negyddol ar ran bwysig o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Yn ein barn ni, rhaid i'r penderfyniad yr ydych yn ei wneud ar y cynigion hyn fod yn gyson â'r nodau llesiant sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn yr achos hwn, y nod yw amddiffyn rhan bwysig o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Rydym yn cytuno ag asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru y

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

gallai'r dull arfaethedig hwn leihau nifer y pysgotwyr traddodiadol, a chredwn y gallai hyn arwain at danseilio'r nod llesiant dan sylw.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y materion hyn wrth geisio dod i benderfyniad ar y mater hwn.

.Yn gywir,



**Mike Hedges AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.